OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

## 2009 Rhif 2427 (Cy.197)

# ANIFEILIAID, CYMRU

### IECHYD ANIFEILIAID

# Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2009

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2008 (O.S. 2008/2716) (Cy. 245). Maent yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru godi ffioedd am gymryd, neu oruchwylio'r broses o gymryd, samplau swyddogol y mae'n ofynnol eu cymryd o dan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 646/2007.

Mae asesiad effaith rheoleiddiol o effaith y Rheoliadau hyn wedi'i baratoi a gellir cael copïau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

## 2009 No. 2427 (W.197)

# ANIMALS, WALES

### ANIMAL HEALTH

# The Zoonoses and Animal By-Products (Fees) (Wales) (Amendment) Regulations 2009

## EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations, which apply in relation to Wales, amend the Zoonoses and Animal By-Products (Fees) (Wales) Regulations 2008 (S.I. 2008/2716) (W. 245). They make provision for the Welsh Ministers to charge fees for taking or supervising the taking of official samples required under Commission Regulation (EC) No 646/2007.

A regulatory impact assessment of the effect of these Regulations has been prepared and copies may be obtained from the Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 2427 (Cy.197)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

# Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *6 Medi 2009* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *7 Medi 2009* |
| *Yn dod i rym* | *28 Medi 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 56(1) a (2) o Ddeddf Cyllid 1973(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy gan adran 59(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**), a chyda chydsyniad y Trysorlys, yn gwneud y Rheoliadau canlynol.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i gyfeiriadau penodol at ddarpariaethau mewn offerynnau Cymunedol gael eu dehongli fel cyfeiriadau at y darpariaethau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1**. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2009. Maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 28 Medi 2009.

**Diwygio**

**2**. Yn rheoliad 2 (Dehongli) o Reoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) 2008 yn lle'r diffiniad o "samplau rheoli swyddogol" rhodder y diffiniad canlynol—

(**1**) 1973 p.51.

(**2**) 1972 p.68; mewnosodwyd paragraff 1A gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p.51).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2009 No. 2427 (W.197)

# ANIMALS, WALES

## ANIMAL HEALTH

# The Zoonoses and Animal By-Products (Fees) (Wales) (Amendment) Regulations 2009

| | |
|---|---|
| *Made* | *6 September 2009* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *7 September 2009* |
| *Coming into force* | *28 September 2009* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by section 56(1) and (2) of the Finance Act 1973(**1**) and now vested in them by section 59(5) of the Government of Wales Act 2006, and paragraph 1A of Schedule 2 to the European Communities Act 1972 (**2**) with the consent of the Treasury, make the following Regulations.

These Regulations make provision for a purpose mentioned in section 2(2) of the European Communities Act 1972 and it appears to the Welsh Ministers that it is expedient for certain references to provisions of Community instruments to be construed as a reference to those provisions as amended from time to time.

**Title, application and commencement**

**1**. The title of these Regulations is the Zoonoses and Animal By-Products (Fees) (Wales) (Amendment) Regulations 2009. They apply in relation to Wales and come into force on 28 September 2009.

**Amendment**

**2**. In regulation 2 (Interpretation) of the Zoonoses and Animal By-Products (Fees) (Wales) Regulations 2008 for the definition of "official control samples" substitute the following definition—

(**1**) 1973 c.51.

(**2**) 1972 c.68; paragraph 1A was inserted by section 28 of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c.51).

"ystyr "samplau rheoli swyddogol" ("*official control samples*") yw samplau a gymerir gan Weinidogion Cymru o dan unrhyw un o'r canlynol—

(a) pwynt 2.1.2.2 o'r Atodiad i Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1003/2005 sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003 o ran targed Cymunedol ar gyfer gostwng nifer yr achosion o seroteipiau salmonela penodol mewn heidiau bridio o *Gallus gallus* ac yn diwygio Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003(**1**), fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd;

(b) pwynt 2.1 o'r Atodiad i Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1168/2006 sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 2160/2003 o ran targed Cymunedol ar gyfer gostwng nifer yr achosion o seroteipiau salmonela penodol mewn heidiau dodwy o *Gallus gallus* ac yn diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1003/2005(**2**), fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd; neu

(c) pwynt 1(b) ac (c) o'r Atodiad i Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 646/2007 sy'n gweithredu Rheoliad 2160/2003 o ran targed Cymunedol ar gyfer gostwng nifer yr achosion o seroteipiau salmonela penodol mewn heidiau o frwyliaid *Gallus gallus* ac yn diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1091/2005(**3**), fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.".

""official control samples" ("*samplau rheoli swyddogol*") means samples taken by the Welsh Ministers under any of the following—

(a) point 2.1.2.2 of the Annex to Commission Regulation (EC) No 1003/2005 implementing Regulation (EC) No 2160/2003 as regards a Community target for the reduction of the prevalence of certain salmonella serotypes in breeding flocks of *Gallus gallus* and amending Regulation (EC) No 2160/2003(**1**), as amended from time to time;

(b) point 2.1 of the Annex to Commission Regulation (EC) No 1168/2006 implementing Regulation (EC) No 2160/2003 as regards a Community target for the reduction of the prevalence of certain salmonella serotypes in laying flocks of *Gallus gallus* and amending Regulation (EC) No 1003/2005(**2**), as amended from time to time; or

(c) point 1(b) and (c) of the Annex to Commission Regulation (EC) No 646/2007 implementing Regulation 2160/2003 as regards a Community target for the reduction of the prevalence of certain salmonella serotypes in broiler flocks of *Gallus gallus* and repealing Regulation (EC) No 1091/2005(**3**), as amended from time to time.".

*Elin Jones*

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

Minister for Rural Affairs, one of the Welsh Ministers

6 Medi 2009

6 September 2009

©㉿ Hawlfraint y Goron 2009

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2009

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) OJ Rhif L 170, 1.7.2005, t.12, fel y'i diwygiwyd gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1168/2006 (OJ Rhif L 211, 1.8.2006, t.4).

(**2**) OJ Rhif L 211, 1.8.2006, t.4.

(**3**) OJ Rhif L 151, 13.6.2007, t.21.

(**1**) OJ No L 170, 1.7.2005, p.12, amended by Commission Regulation (EC) No 1168/2006 (OJ No L 211, 1.8.2006, p.4).

(**2**) OJ No L 211, 1.8.2006, p.4.

(**3**) OJ No L 151, 13.6.2007, p.21.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

## 2009 Rhif 2427 (Cy.197)

## 2009 No. 2427 (W.197)

# ANIFEILIAID, CYMRU

# ANIMALS, WALES

### IECHYD ANIFEILIAID

### ANIMAL HEALTH

Rheoliadau Milheintiau a Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2009

The Zoonoses and Animal By-Products (Fees) (Wales) (Amendment) Regulations 2009

£4.00

W534/09/09 ON